Rheolwr Marchnata Swydd-ddisgrifiad

Y tîm

Bydd y rheolwr marchnata yn gweithio fel rhan o dîm yn Sinfonia Cymru, sy'n cynnwys: Peter Bellingham, Prif Weithredwr; Tammy Daly, Rheolwr Cyffredinol; Joseph Evans, Rheolwr y Gerddorfa. Hefyd, rydym ni'n gweithio gydag ymgynghorydd codi arian, Caroline Harris.

Diben allweddol y rôl

Creu strategaethau marchnata a chynlluniau ymgyrchoedd i gyflawni'r cynulleidfaoedd gorau posibl i'n perfformiadau. Hybu'r gwaith a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y sefydliad trwy'r cyfryngau prif ffrwd a'r cyfryngau cymdeithasol.

Dyma'r unig rôl farchnata yn yr adran, felly mae'r cyfuniad o strategaeth a gweithredu'n ymarferol yn hanfodol i lwyddiant y rôl.

Cyflog ac amodau

Cynigir y rôl ar sail cyflogaeth ran-amser neu lawrydd (2 i 3 diwrnod yr wythnos). Rydym yn rhagweld cyflog cyfwerth ag amser llawn o ryw £30,000.

Rydym ni'n sefydliad bach ac yn gweithredu amgylchedd gweithio hyblyg. Rydym ni'n agored i oriau hyblyg a rhywfaint o weithio gartref neu weithio o bell. Rydym ni'n cynnig hawl gwyliau hael – i weithwyr amser llawn (pro rata yn rhan-amser), mae hwn yn 20 diwrnod ac 8 o ddiwrnodau gŵyl banc. Yn ogystal, yn ôl disgresiwn, rydym ni'n cynnig gwyliau â thâl yn ystod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac, yn ystod misoedd yr haf, pan fyddwn ni'n llai prysur, rydym ni'n tueddu i weithio oriau llai hefyd – mae potensial i'r rhain ychwanegu tuag 16 diwrnod ychwanegol o wyliau i weithwyr amser llawn. Ar sail amserlen yr ymarferion a pherfformiadau, mae'r rôl yn gofyn am weithio rhywfaint ar benwythnosau a'r tu allan i oriau, a rhai cyfnodau i ffwrdd o Gaerdydd, ond gellir rheoli hyn fel y bo'n addas i'r ymgeisydd llwyddiannus.

I weithwyr, rydym ni'n cynnig cynllun pensiwn â chyfraniadau diffiniedig, gyda chyfraniadau safonol o 5% gan y cyflogwr a'r gweithiwr.

Agweddau allweddol ar y rôl

- Creu strategaethau marchnata cyffredinol a dull marchnata cyfoes
- Creu cynlluniau ymgyrchoedd ar gyfer pob agwedd ar y rhaglen a chydweithio â lleoliadau i roi'r rhain ar waith, gan gytuno ar gyfrifoldebau
- Ysgrifennu testun ar gyfer deunyddiau marchnata, post uniongyrchol, datganiadau i'r wasg ac asedau marchnata eraill
- Gweithio gyda dylunwyr a ffotograffwyr i gynhyrchu taflenni, posteri a deunyddiau e-farchnata
- Cynnal ein presenoldeb yn rhagweithiol ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol ac ymateb i bynciau perthnasol
- Golygu deunyddiau sain a chlyweled ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol (darperir hyfforddiant os bydd ei angen)
- Cadw'r wefan yn fywiog trwy gynhyrchu a chomisiynu cynnwys
- Cynhyrchu rhaglenni cyngerdd - mae'r rhain yn tueddu i fod yn daflenni rhaglen rhad ac am ddim

- Datblygu perthnasoedd gyda sefydliadau celf a cherddoriaeth eraill a chytuno ar farchnata cilyddol
- Creu a dosbarthu datganiadau i'r wasg a gwybodaeth ar gyfer amserlenni a nodweddion
- Cynnal cronfa ddata o aelodau cynulleidfa a Chyfeillion a Noddwyr
- Rheoli cyllidebau marchnata ar gyfer pob prosiect
- Prosesu anfonebau a thaliadau'n gysylltiedig â marchnata
- Monitro gwerthiant tocynnau ac incwm ar gyfer pob lleoliad a phrosiect ac addasu gweithgarwch yn unol â hynny
- Cynnal ymchwil a dadansoddi data, fel y bo'r angen
- Cynnal data ystadegol ar bresenoldeb ac incwm terfynol ar gyfer pob prosiect / perfformiad i'w ddefnyddio maes o law at ddibenion y Bwrdd a Chyngor Celfyddydau Cymru
- Mynychu ymarferion a pherfformiadau a helpu gyda phresenoldeb blaen tŷ, fel y bo'r angen

Nodweddion

Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan bawb, ni waeth beth fo'u cefndir. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol rai o'r nodweddion, y sgiliau neu'r profiad canlynol, neu'r cyfan ohonynt:

- Profiad eang blaenorol o farchnata'r celfyddydau
- Diddordeb yn y celfyddydau, cerddoriaeth glasurol yn ddelfrydol, a rhywfaint o wybodaeth am gerddoriaeth glasurol
- Sgiliau ysgrifennu rhagorol – ar gyfer testun taflenni / llyfrynnau ac i'r cyfryngau
- Sylw i fanylion, yn enwedig prawf ddarllen
- Llygad dda am ddylunio
- Profiad o reoli sianeli'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau
- Gallu gweithio yn unol â therfynau amser, weithiau o dan bwysau
- Sgiliau trefnu da
- Sgiliau rhyngbersonol da – gallu ymgysylltu â phobl o wahanol oedran a chefndir
- Byddai sgiliau Cymraeg yn fantais bendant